



CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

HAF 2024

**TGAU
CYMRAEG AIL IAITH - UNED 3
3020U30-1**

Ynglŷn â'r cynllun marcio hwn

Pwrpas y cynllun marcio hwn yw sicrhau bod athrawon, dysgwyr a phartïon eraill â diddordeb yn deall y meini prawf asesu a ddefnyddiwyd i asesu'r asesiad penodol hwn.

Marciwyd yr asesiad hwn yn ôl meini prawf penodol mewn cyfres fyw ac mae'r cynllun marcio hwn yn adlewyrchu hynny. Cafodd y ddogfen ei phenderfynu'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn gynhadledd arholwyr. Derbyniodd tîm o arholwyr cymwys hyfforddiant penodol ar sut i gymhwyso'r cynllun marcio hwn. Bwriad y gynhadledd oedd sicrhau bod yr holl arholwyr yn dehongli ac yn cymhwyso'r cynllun marcio yn yr un modd. Efallai nad yw'n bosibl, nac yn briodol, i'r cynllun marcio hwn gynnwys pob amrywiad y gall ymgeisydd ei gyflwyno mewn ymateb. Fodd bynnag, yn ystod y gynhadledd arholwyr, derbyniodd arholwyr gyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio eu barn broffesiynol i wobrwyo ymatebion amgen oedd yn ddilys. Derbyniwyd cyfarwyddyd hefyd yn y ddogfen hon ac adolygwyd ymatebion enghreifftiol.

Gan nad ydynt wedi gallu manteisio ar gymryd rhan yn y gynhadledd arholwyr, mae'n bosibl bod safbwynt athrawon, dysgwyr a defnyddwyr eraill yn mynd i fod yn wahanol o ran rhai manylion neu ddehongliad. Argymhellir yn gryf felly bod y cynllun marcio hwn yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr ag unrhyw gyfarwyddyd arall a gyhoeddwyd, fel enghreifftiau patrymol neu Ganllawiau i Athrawon. Y cynllun marcio hwn yw'r un terfynol. Ni fydd yn cael ei newid onid yw'n amlwg bod gwall yn y ddogfen. Mae'n adlewyrchu'r meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu ymatebion ymgeiswyr yn ystod y gyfres fyw.

TGAU CYMRAEG AIL IAITH - UNED 3

CYNLLUNIAU MARCIO HAF 2024

ADRAN A

Cwestiwn 1: Gwaith gwirfoddol

Dewis y lluniau cywir – **3 marc** (1 marc yr un)

Theatr

Bin sbwriel

Chwaraeon

Cwestiwn 2 : Gwobr Dug Caeredin

Ateb cwestiynau - **4 marc**

Rydw i'n un deg pump oed. Ydw i'n gallu gwneud y wobwr?	YDYCH	NAC YDYCH
Rydw i'n ddau ddeg pump oed. Ydw i'n gallu gwneud y wobwr?	YDYCH	NAC YDYCH
Oes rhaid gwirfoddoli?	OES	NAC OES
Oes rhaid cadw'n ffit?	OES	NAC OES

Cwestiwn 3 : Gwaith gwirfoddol / Y Bac Cymraeg – 8 marc

ENW	GWAITH GWIRFODDOL	BARN Y PERSON
Micah James	Stablau / Stablau'r Hafod / Hafod	<i>Yn wych / staff yn gyfeillgar / staff yn hapus i helpu / amser anhygoel / anhygoel</i>
Mabli Wilkins	<i>Siop elusen / siop elusen Barnados / siop Barnados / siop</i>	<i>Gwaith yn ddiddorol / edrych yn dda ar y CV / diddorol</i>
Ella Harries	<i>Theatr y Castell / theatr / helpu gyda sioe / helpu gyda drama</i>	<i>Yn brofiad / yn flinedig / ddim yn hoffi gweithio am ddim / profiad</i>
Adnan Farouq	<i>Llyfrgell</i>	<i>Syniad da / helpu gwneud ffrindiau newydd / dysgu sgiliau newydd / wedi cael hwyl / hwyl</i>

Cwestiwn 4: Cywiro - 10 marc

1 marc yr un am gywiro pob camgymeriad. Nid oes rhaid i'r atebion canlynol fod mewn trefn.

- chi (Chi) / chi'n (Chi'n)
- Llun (llun)
- saith
- , / coma
- Fyddwch (fyddwch)
- Rydyn (rydyn) / Rydym (rydym) / Ryden (ryden)
- Parcio (parcio)
- Merched (merched) / Merch (merch) / Menywod (menywod) / Genod (genod) / (Genethod) genethod / Dynes (dynes)
- Bawb / (bawb)
- Cliciwch / (cliciwch) / Clicwch / (clicwch) / Clicia / (clicia) / Clica / (clica)

Cwestiwn 5: Bwydlen caffi – 12 marc

(i) Aml-ddewis : 1 marc am bob ateb cywir - 5 marc

Faint ydy pris un coffi a dau siocled poeth?	£6.80
Pa fath o gacennau sydd ar werth? (x2) Os oes tri pheth wedi cael eu cylchu, gwobrwyr 1 marc yn unig	siocled a lemwn
Beth sy'n costio tair punt?	Pitsa
Beth sy'n costio llai na dwy bunt?	Sudd oren

(ii) Beth sy'n iachus ar y fwydlen? : 2 beth - 2 farc (1 marc yr un)

Atebion posibl : te gwyrdd, brechdan salad, salad, cyrri a reis, cawl, brechdanau, unrhyw ffrwyth sy'n cael ei nodi ar y fwydlen e.e. banana, afal ...

(iii) Ydych chi'n hoffi'r fwydlen? Ydw / Nac ydw / Wrth gwrs / Mae'n iawn – unrhyw ateb synhwyrol ond rhaid bod yn ramadegol gywir. (1 marc) Rhaid i'r rhesymau (1 a 2) gyfateb i'r ateb cyntaf yn rhan (iii). Rhaid i unrhyw fwyd yn yr atebion ddod o'r fwydlen (rhan 1 a 2)

Rhesymau (hyd at 4 marc)

Rheswm syml - 1 marc e.e. mae pitsa yn flasus / achos dwi'n hoffi cacen siocled / achos mae'n iachus / achos mae caffi iachus

Rheswm uchelgeisiol - 2 farc e.e. Yn fy marn i mae bwyta'n iach yn bwysig, dwi'n dwlu ar fwyd y caffi yn enwedig y pitsa peperoni, dwi'n meddwl bod y pris yn rhesymol a hoffwn i fynd yno

Cwestiwn 6: Arolwg y coleg lleol – 9 marc

- (i) 1 marc am bob ateb cywir - 4 marc

	CYWIR	ANGHYWIR
Ffitrwydd ydy'r peth pwysicaf yn ôl y bobl ifanc.		✓
Mae bod yn wyrdd yn y tri uchaf.	✓	
Dydy arian ddim yn bwysig o gwbl.		✓
Mae cael swydd a bod yn hapus yn y dyfodol yn bwysig iawn i bobl ifanc heddiw	✓	

- (ii) Pa **un** o'r chwech ateb ydy'r pwysicaf yn eich barn chi?

Unrhyw un o'r chwech pwynt fel ateb / rhif 1 - 6 (1 marc)

Rhesymau (hyd at 4 marc) : Rhaid i'r rhesymau ddeillio o'r pwynt hwn.

- (iii) Rheswm syml - 1 marc e.e. Dw i'n mwynhau cadw'n heini a bwyta'n iach.

Rheswm uchelgeisiol - 2 marc e.e. Dylen ni ofalu am y corff achos mae ffitrwydd yn helpu.

- (iv) Cwestiwn am yr arolwg – 2 marc. Nid oes modd gwobrwyo 1 marc yn unig yma. Rhaid i'r cwestiwn fod yn berthnasol i'r arolwg.

Cwestiwn 7 : Cyfieithu - 10 marc

1 marc am bob ymadrodd / gair

1. Beth am / Hoffech chi / Ydych chi'n gallu / Ydych chi eisiau / Hoffet ti / Wyt ti'n gallu / Wyt ti eisiau
2. Helpu
3. Mae
4. Bod yn wyrdd
5. Yn bwysig
6. Arhoswch / Stopiwch / Stopwch / Arafwch
7. Am funud / funed
8. Dyma / Hwn yw / Bydd hyn / Hwn ydy
9. Ein
10. Dyfodol

1 marc ychwanegol yn bosibl am unrhyw 2 o'r geiriau canlynol: Beth / munud / gwyrdd / wyrdd / bod / pwysig / aros / stopio / araf / ni / muned

Cwestiwn 8 : Yr Amgylchedd – 7 marc

(i) Llenwi'r bylchau yn y sylwadau : 1 marc yr un = 5 marc posibl

Dydy **pobl** ddim yn ailgylchu digon. Mae'n broblem fawr.

Mae **gormod** o wastraff. Dydy hyn ddim yn ddigon da.

Dylai'r cwmnïau **mawr** wneud mwy i helpu.

Mae plastig yn creu problem fawr, yn enwedig yn y **môr**

Rydyn ni'n **taflu** gormod o sbwriel yn y bagiau du!

(ii) Dewis 2 lun addas - 2 farc (1 marc am bob llun addas)



ADRAN B**Cwestiwn 9 : Ysgolion tu allan i Gymru sy'n defnyddio'r Gymraeg – 17 marc**

- (i) Ateb cwestiwn am Ysgol Gymraeg Llundain – hyd at 2 farc

Disgwylir ateb synhwyrol yn cynnwys mynegi barn perthnasol.

Ateb sylfaenol - 1 marc e.e. Mae pobl yn siarad Cymraeg yn Llundain

Ateb estynedig - 2 farc e.e. Yn fy marn i mae'n syniad da achos mae llawer o bobl yn symud i Lundain o Gymru.

- (ii) Llenwi grid y ddwy ysgol : 1 marc am bob ateb cywir - 6 marc

	Ysgol Gymraeg Llundain	Ysgol yr Hendre
Oed ysgol gynradd neu ysgol uwchradd?	Ysgol gynradd 3 - 11 oed	Ysgol gynradd / 3 - 11 oed
Dyddiad agor?	1958	2006
Dwy iaith yr ysgol?	Cymraeg + Saesneg	Cymraeg + Sbaeneg

- (iii) Un peth sy'n debyg -1 marc

Atebion posibl : mae'r plant rhwng 3 ac 11 oed / Mae'r ddwy ysgol yn siarad Cymraeg / mae'r ddwy yn ysgolion dwyieithog / mae dwyieithrwydd yn bwysig / Cymraeg ydy prif iaith yr ysgol / y ddwy ysgol tu allan i Gymru / cynnig profiadau amrywiol i'r plant

- (iv) Un peth sy'n wahanol - 1 marc

Atebion posibl : un yn agor yn 1958 a'r llall yn agor yn 2006 / un yn siarad Sbaeneg a'r llall yn siarad Saesneg / un yn Lloegr ac un ym Mhatagonia / un mewn tref ac un mewn dinas

- (v) Ysgrifennu neges ebost at Bennaeth un o'r ysgolion - 7 marc

- Enw ac ardal [1]
- Barn am yr ysgol – h.y. Ysgol Gymraeg Llundain neu Ysgol yr Hendre neu Ysgol Pentreuchaf [2]
- Pwrpas yr ymweliad [1]
- Beth hoffen nhw weld ar yr ymweliad [2]
- Manylion cysylltu [1]

ADRAN C : Ysgrifennu

Cwestiwn 10 [10 + ✓ = 10] = [20 marc]

Naill ai: Nodyn ar gyfer y llywodraethwyr

Neu: Blog yn trafod gwaith gwirfoddol

Mae llywodraethwyr yr ysgol wedi gofyn am eich help. Maen nhw eisiau gwybod mwy am farn disgyblion yn eich ysgol chi, yn enwedig o ran y cwricwlwm. Rhaid i chi ysgrifennu nodyn atynt yn ymateb i'w cais.

Rhaid i chi gynnwys:

- Eich enw a'ch rheswm dros ysgrifennu [1]
- Y pethau rydych chi'n hoffi am yr ysgol [2]
- Eich barn am y cwricwlwm h.y. pynciau ysgol, yr amserlen [4]
- Unrhyw beth arall sy'n eich poeni am yr ysgol [2]
- Diwedd priodol e.e. diolch am ddarllen / diolch am eich sylw / diolch a hwyl fawr [1]

Rydych chi wedi bod yn gwneud gwaith gwirfoddol yn ddiweddar. Rydych chi eisiau annog mwy o bobl ifanc i wneud hyn hefyd. Rydych chi'n ysgrifennu blog yn trafod gwaith gwirfoddol.

Rhaid i chi gynnwys:

- Eich enw a'ch rheswm dros ysgrifennu [1]
- Manylion eich gwaith gwirfoddol chi [3]
- Manteision gwaith gwirfoddol [3]
- Cyfleoedd am waith gwirfoddol yn yr ardal [2]
- Diwedd priodol e.e. diolch am ddarllen / diolch am eich sylw / diolch a hwyl fawr [1]

Cwestiwn 10

Naill ai: Nodyn ar gyfer y llywodraethwyr

Neu: Blog yn trafod gwaith gwirfoddol

CYNNWYS		MYNEGIANT	
Band 5 9-10 marc	• Cynllun rhagorol ac adeiladwaith grefftus • Amrywiaeth eang o syniadau a barn • Mynegi barn yn hyderus gan ymresymu'n berthnasol a chynnig tystiolaeth i gefnogi barn • Gwaith gafaelgar sy'n creu naws ac awyrgylch pwrpasol	Band 5 9-10 marc	• Cyfathrebu'n hyderus iawn gydag elfen gref o gywirdeb. Defnydd cywir o'r 6 Rheol Digyfnawid • Defnyddio ystod eang ac amrywiol o ymadroddion cwestiynau a phatrymau brawddegol • Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gyson gywir • Sillafu ac atalnodi cywir
Band 4 6-8 marc	• Cynllunio amlwg a dilyniant priodol • Peth amrywiaeth o ran syniadau a barn • Mynegi barn yn weddol hyderus gan roi rhesymau dilys i gefnogi barn • Gwaith diddorol gydag ymdrech i greu naws ac awyrgylch pwrpasol	Band 4 6-8 marc	• Cyfathrebu'n rhwydd gydag elfen amlwg o gywirdeb. Defnydd cywir o fwyaf o'r 6 Rheol Digyfnawid • Defnyddio ystod o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol • Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir ar y cyfan • Sillafu ac atalnodi eithaf cywir
Band 3 3-5 marc	• Ôl cynllunio a dilyniant gweddol naturiol • Digonol o ran syniadau a barn • Mynegi barn yn ddigon effeithiol gan roi rhesymau digonol ar y cyfan • Gwaith gweddol ddiddorol sydd yn llwyddo i gadw ein diddordeb	Band 3 3-5 marc	• Cyfathrebu'n weddol rhwydd gyda'r iaith yn weddol gywir ar y cyfan • Defnyddio ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol sylfaenol • Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn weddol gywir • Ymdrech i sillafu ac atalnodi yn gywir

CYNNWYS		MYNEGiant	
Band 2 1-2 marc	• Ychydig o dystiolaeth o gynllunio ac ambell ddarn yn datblygu yn synhwyrol • Arwynebol iawn o ran syniadau a barn • Mynegi barn yn sylfaenol iawn gan gynnig ambell reswm syml • Gwaith gweddol ddiddorol	Band 2 1-2 marc	• Cyfathrebu'n ddealladwy gyda pheth cywirdeb iaith gyda'r elfennau syml yn unig • Defnydd cyfyngedig o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol • Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) gyda pheth cywirdeb. Peth cywirdeb o'r ffurfiau berfol (amser a pherson) gan ddibynnu'n ormodol ar y presennol • Ymdrech i sillafu ac atalnodi yn weddol gywir
Band 1 0 marc	• Ymateb amhriodol neu heb ymateb	Band 1 0 marc	• Mynegiant amhriodol neu heb ymateb

Os nad yw'r cynnwys yn berthnasol ni ellir ystyried gwobrwyo marciau mynegiant
Ni ellir gwobrwyo yn uwch na Band 3 am y defnydd o'r presennol yn unig